GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A44 (GOGINAN I GAPEL BANGOR, CEREDIGION) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2021

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A44, neu gerllaw iddi, rhwng Goginan a Chapel Bangor, Ceredigion.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A44 sy'n ymestyn o bwynt 150 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r U1082 (arwydd Goginan Isaf) hyd at bwynt 490 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r C1130, i'r dwyrain o Gapel Bangor, Ceredigion.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin o Oginan yw mynd ar yr A44 tua'r dwyrain i Bonterwyd, yr A4120 tua'r de-orllewin drwy Bontarfynach hyd at ei chyffordd â'r A487 wrth Gylchfan Southgate, i'r de o Aberystwyth a Heol y Bont tua'r gogledd i ymuno â'r A44 tua'r dwyrain yn Llanbadarn Fawr a pharhau tua'r dwyrain i Gapel Bangor: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain o Gapel Bangor.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 3 Ionawr 2022. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol dros nos (19:00 – 06:00 o'r gloch) o 3 Ionawr – 7 Chwefror 2022 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

THE A44 TRUNK ROAD (GOGINAN TO CAPEL BANGOR, CEREDIGION) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2021

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A44 trunk road between Goginan and Capel Bangor, Ceredigion.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the length of the A44 trunk road that extends from a point 150 metres east of the centre-point of its junction with the U1082 (signposted Old Goginan) to a point 490 metres north-east of the centre-point of its junction with the C1130, east of Capel Bangor, Ceredigion.

The alternative route for westbound vehicles from Goginan is via the eastbound A44 to Ponterwyd, south-westbound A4120 through Devil's Bridge to its junction with the A487 at Southgate Roundabout, south of Aberystwyth and northbound Heol y Bont to join the eastbound A44 at Llanbadarn Fawr and continue eastwards to Capel Bangor: vice versa for eastbound traffic from Capel Bangor.

The Order comes into force on 3 January 2022. The temporary prohibition is expected to operate overnight (19:00 – 06:00 hours) from 3 January – 7 February 2022 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government